




# Diweddariad Blynyddol PPC – 2019/2020

Croeso i ddiweddariad blynyddol cyntaf Partneriaeth Pensiwn Cymru ('PPC'). Mae'r cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf yn adlewyrchu gallu'r wyth awdurdod cyfansoddol yng Nghymru i gydweithio i gyflawni cyfres o amcanion a rennir. Cyrhaeddwyd cerrig milltir arwyddocaol yn ystod y flwyddyn ac mae'n braf iawn gweld bod y cerrig milltir hyn wedi'u hymestyn dros amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys buddsoddiadau, llywodraethu, cyfathrebu a hyfforddiant.



Mae PPC yn ceisio darparu atebion o ran buddsoddiadau sy'n caniatáu i'r awdurdodau cyfansoddol weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain gydag arbedion cost pwysig, wrth barhau i gyflawni o ran perfformiad buddsoddi ar gyfer eu rhanddeiliaid. Rydym wedi gwneud cryn gynnydd tuag at gyflawni'r amcan hwn drwy lansio a hwyluso tair is-gronfa ecwiti weithredol y gall yr awdurdodau cyfansoddol eu defnyddio, sef Twf Byd-eang, Cyfleoedd Byd-eang a Chyfleoedd y DU. Mae'n braf gweld bod pob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol wedi defnyddio o leiaf un o'r is-gronfeydd. Bydd PPC yn parhau i ddatblygu is-gronfeydd er budd yr awdurdodau cyfansoddol, mewn cydweithrediad â Link Fund Solutions Ltd a Russell Investments. Mae PPC yn falch o'i chynnydd hyd yma o ran cronni asedau a bydd yn parhau i ddyrannu adnoddau i sicrhau bod yr holl asedau addas yn cael eu cronni. Hyd yma, mae PPC wedi "cronni" oddeutu 50% o'i hasedau ac, erbyn diwedd mis Mawrth 2021, mae PPC yn disgwyl y bydd wedi "cronni" mwy na 65%. \*

\*Sylwch fod hyn yn cynnwys daliadau goddefol PPC



Perfformiad 12 mis PPC hyd at 31 Mawrth 2020 (heb gynnwys ffioedd)				
Is-gronfa	Dyddiad cychwyn	Cronfa	Meincnod	Cymhariaeth
Twf Byd-eang	6 Chwefror 2019	(7.30)	(6.74)	(0.56)
Cyfleoedd Byd-eang	14 Chwefror 2019	(4.68)	(6.74)	2.06
Cyfleoedd y DU*	11 Chwefror 2019	(24.63)	(20.83)	(3.80)

\* Sylwch fod meincnod a pherfformiad Cronfa Cyfleoedd y DU ers ei chychwyn. Y meincnod yw mynegai All-Share y FTSE. Meincnod y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a'r Gronfa Twf Byd-eang yw MSCI ACWI ND.

Hefyd, mae PPC wedi parhau i ddatblygu fframwaith llywodraethu cadarn. Roeddem wedi nodi'r angen am gyfres o gredau a rennir i lywio proses gwneud penderfyniadau a pholisïau PPC. Roeddem wedi cynnal gweithdy Credau lle'r oedd yr holl awdurdodau cyfansoddol ar y cyd wedi llunio Datganiad Credau PPC. Gellir ei weld ar y wefan. Hefyd, lluniwyd y Matrics Llywodraethu ac mae'n cynnig trosolwg o strwythur llywodraethu PPC ac yn amlinellu'r cyrff mewnol sy'n gyfrifol am y prif benderfyniadau a chamau gweithredu a gyflawnir gan y bartneriaeth. Mewn datblygiad blaengar arall, roeddem wedi penodi Hymans Robertson ym mis Ionawr 2020 i gynnig goruchwyliaeth a chynghor ar strategaeth y gronfa ynghylch llywodraethu, gwasanaethau gweithredwyr a buddsoddi strategol.

Mae PPC yn credu y dylai buddsoddi cyfrifol, ynghyd ag ystyried a rheoli tystiolaeth ynghylch materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu, arwain at well canlyniadau i'w rhanddeiliaid, felly mae wedi bod yn brif flaenoriaeth i ni ers ein sefydlu yn 2017. Cyflawnwyd gweithgareddau amrywiol eleni i weithio tuag at ein huchelgais, sef bod yn arweinydd o ran buddsoddi cyfrifol. I ddechrau, roeddem wedi canolbwyntio ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol. Mae'r polisi hwn yn cynrychioli'r ystod eang o gredau buddsoddi yn y gronfa a chafodd yr holl awdurdodau cyfansoddol eu cynnwys wrth lunio'r polisi.

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn parhau i gyflawni'r ymrwymïadau a wnaed yn y polisi. Bydd hyn yn cynnwys llunio Polisi Risgiau yn sgil y Newid yn yr Hinsawdd, sydd eisoes yn cael ei ddatblygu. Mae penodi Robeco UK, ym mis Mawrth 2020, yn dystiolaeth ein bod yn parhau i gyflawni'r ymrwymïadau hyn. Mae hefyd yn dangos ein hadduned i arfer hawliau pleidleisio yn ôl budd ein rhanddeiliaid ac ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi i gynyddu gwerth hirdymor buddsoddiadau'r awdurdodau cyfansoddol o fewn PPC.

Mae gwella cyfathrebu PPC wedi bod yn brif ffrwd waith yn ystod y 12 mis diwethaf. Lansiodd gwefan PPC ym mis Medi 2019 ac mae'n offeryn ardderchog i ddysgu a deall mwy am y gronfa, cadw golwg ar ein gweithgareddau diweddar a chael gwybod am ein polisïau, gweithdrefnau a'n trefniadau llywodraethu. Gallwch ddod o hyd i'r wefan yma: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Rydym am i'n cyfathrebu fod yn ddiddorol ac asesadwy, felly roeddem hefyd wedi cynnal gweithdy cyfathrebu i astudio gwahanol ddulliau cyfathrebu a'r ffordd fwyaf priodol o ymgysylltu â'n cynulleidfa. Yn dilyn y gweithdy, roeddem wedi llunio Polisi Cyfathrebu a lansio ein tudalen LinkedIn. Mae'r wefan a LinkedIn yn ffyrdd gwych o gael y wybodaeth ddiweddaraf am PPC a diweddariadau anffurfiol ar ein holl ymdrechion.

Ochr yn ochr â'n strategaeth gyfathrebu, rydym hefyd wedi ceisio gwella ein lefelau ymgysylltu â'n rhanddeiliaid mewnol, yn ogystal â rhanddeiliaid allanol. Mae PPC yn falch o gyhoeddi, yn 2019/2020, y cynhaliwyd ei diwrnod Ymgysylltu â Rheolwyr cyntaf a oedd yn canolbwyntio ar reolwyr ecwiti byd-eang. Yn sgil llwyddiant y digwyddiad hwn, cynhaliodd PPC ail ddiwrnod Ymgysylltu â Rheolwyr yn fuan wedi hynny a fynychwyd gan reolwyr incwm sefydlog presennol, yn ogystal â nifer o gynrychiolwyr yr awdurdodau cyfansoddol.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem hefyd wedi ffurfioli protocolau ymgysylltu a fydd yn sicrhau ymgysylltu a chydweithio parhaus ymhlith awdurdodau cyfansoddol a darparwyr PPC. Rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i ddatblygu a dysgu, felly roedd yn arbennig o braf gweld bod PPC, mewn cydweithrediad â'r awdurdodau cyfansoddol, yn gallu llunio ei Chynllun Hyfforddiant Blynyddol cyntaf a chynnal ei diwrnod hyfforddiant cyntaf ym mis Chwefror 2020.

Fel y gallwch weld, mae PPC wedi cael blwyddyn brysur a chynhyrchiol iawn. Hoffem ddiolch i holl staff PPC, yr awdurdodau cyfansoddol, ymgynghorwyr a darparwyr sydd wedi sicrhau bod hyn yn bosibl. Mae'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn haeddu sylw arbennig am eu gwaith a'u cymorth drwy gydol y flwyddyn. Er ei bod yn bwysig cydnabod cyflawniadau'r 12 mis diwethaf, rydym eisoes wedi dechrau canolbwyntio ar y 12 mis sydd i ddod.

Mae cynllun gwaith ar y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn rhan o Gynllun Busnes blynyddol PPC. Bydd hyn ar gael ar ein gwefan yn fuan. Bydd yr uchafbwyntiau penodol dros y flwyddyn nesaf yn cynnwys lansio is-gronfeydd incwm sefydlog a marchnadoedd sy'n amlygu PPC a pharhau i ddatblygu cynigion o ran marchnadoedd preifat a fydd yn cynnwys eiddo tirol, seilwaith ac effaith gymdeithasol.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod PPC mewn sefyllfa arbennig o dda i gyflawni cynllun gwaith 2020/2021, er gwaethaf cyfnod clo COVID-19. Mae'r pontio esmwyth i gyfarfodydd rhithwir eisoes wedi digwydd ac mae holl staff a chyflenwyr PPC yn parhau i allu cyflawni eu rolau. Edrychwn ymlaen at roi diweddariad pellach ichi y flwyddyn nesaf! Gallwch gael rhagor o wybodaeth am PPC a diweddariadau parhaus ar gynydd ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.